## Gweddi o Ymgysegriad

Dduw annwyl, mor bersonol yw ein ffydd a'n cred ynot, a diolchwn am gyfle newydd i ddod i ymostwng yn ostyngedig gerbron Gorsedd Gras yr Efengyl. Cydnabyddwn yn edifeiriol ein bod yn aml iawn yn ddisgyblion sâl fel Pedr a Thomas a Jwdas gynt. Mae angen i'n Gwaredwr Iesu ddweud o hyd wrthym, yr hyn a ddywedodd wrth Simon Pedr: 'A wyt ti yn fy ngharu i?' A wyt ti, Gristion eiddil, yn rhoi'r flaenoriaeth i Waredwr y Byd? Soniodd ef yn aml yn ei ddysgeidiaeth am y blaenoriaethau, sef codi'r groes a'i chyfri'n goron, mentro dilyn er pob rhwystr, dal i gerdded llwybrau'r cysegr yn hytrach nag aros oddi yno. Gweddïo am weld y byd cyfan yn eiddo Crist. Mae'r Ysbryd ar waith bob eiliad o'r dydd, am mai'r Ysbryd Glân ydyw.

'O Ysbryd byw, dylifa drwom,
    Bywha dy waith â grym y groes;
O Ysbryd byw, tyrd, gweithia ynom,
    Cymhwysa ni i her ein hoes.'

Y mae'r oes bresennol yn gofyn am ymroddiad oddi wrthym, dycnwch arbennig a phenderfyniad i fod yn ewyllysgar o blaid gwerthoedd y Deyrnas.

'O ddwyfol wynt, tyrd, plyg a thrin ni
Nes gweld ein hangen ger dy fron;
Ac achub ni â'th hael dosturi,
Bywha, cryfha; clyw'r weddi hon.'

Yng nghwmni Iesu y cawn ein cofleidio a'n cynysgaeddu â'i ddoniau: ffydd, gobaith, cariad, ie doniau pennaf gras, a fydd yn addurno'n hoes trwy'r anial fyd.

'O gariad Crist, chwyth arnom eto,
rho galon ac ewyllys lân;
tyrd, gariad Crist, drachefn i'n huno,
glanha'r holl dÿ â'th sanctaidd dân.'

Er mor ofnus ydym, a llawn dryswch, dangos i ni oll yn awr sut y medrwn fyw fel rhai sydd am weld y weledigaeth yn cwmpasu'r byd cyfan, yn enw Ffrind a Phrynwr dynol-ryw, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.